**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd**
**a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2022**
**(yn electronig drwy Microsoft Teams**
**ac wedi'i ffrydio'n fyw ar y we)**

HEB EU CADARNHAU

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Mark Bellis | (MB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (WHO CC) |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) |
| Kate Eden | (KE) | Cyfarwyddwr Anweithredol, Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Dyfed Edwards | (DE) | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) |
| Susan Harris | (SH) | Cynrychiolydd Undeb Llafur |
| Fu-Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Judi Rhys | (JR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Sally Attwood | (SA) | Cyfarwyddwr Pontio Iechyd a Llesiant |

| | | |
|---|---|---|
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd |
| John Boulton | (JB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG / Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Verity Winn | (VW) | Archwilio Cymru |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Claire Sullivan | (CS) | Cynrychiolydd Undeb Llafur ar ran y Staff |
| | | |

HEB EU CADARNHAU

*Dechreuodd y cyfarfod am 10am*

**PHW 1/2022 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso cynnes i'r rhai a oedd yn arsylwi ar-lein, i Hannah Lindsay, cyd-gadeirydd y Rhwydwaith Staff BAME ac i Sarah Morgan, Pennaeth Profiad Gweithwyr.

Aeth JW ymlaen i grynhoi rôl y Bwrdd fel Corff Llywodraethu'r sefydliad, gyda chyfrifoldebau penodol dros: bennu cyfeiriad strategol; meithrin a chynnal partneriaethau strategol; pennu archwaeth risg a goruchwylio risgiau strategol; craffu ar berfformiad yn ystod y flwyddyn yn erbyn cynlluniau a phennu naws a diwylliant y sefydliad.

O ran y pwynt olaf, cadarnhaodd JW ymrwymiad y Bwrdd i feithrin diwylliant dysgu. Mae hyn yn golygu, pan fo pethau'n mynd o'u lle, bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymddiheuro, yn unioni pethau ac yn sicrhau gwelliannau o ganlyniad i roi'r gwersi a ddysgwyd ar waith. Roedd ymarfer dysgu o'r fath yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, yn dilyn ymateb y cyhoedd, a gafodd lawer o sylw yn y cyfryngau, i'r newid yn y cyfnodau sgrinio serfigol ar gyfer menywod 25-49 oed ac unigolion â serfics. Ar ran y Bwrdd, ymddiheurodd JW ac ymrwymodd i nodi'r gwersi a ddysgwyd a'u rhoi ar waith; byddai TC yn rhoi rhagor o fanylion yn adroddiad y Prif Weithredwr.

Roedd y Bwrdd hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu dod i'r gwaith a bod ar eu gorau, heb ofni gwahaniaethu nac anfantais o unrhyw fath. Fel enghraifft bendant o'r ymrwymiad hwnnw, roedd y Bwrdd yn edrych ymlaen at arwyddo Addewid Dim Goddefgarwch i Hiliaeth ar ddiwedd y cyfarfod.

Aeth JW ymlaen i wneud sylwadau ar y modd y cynhelir busnes y Bwrdd yn unol â chod ymddygiad ffurfiol y Bwrdd; mae'r cod ar gael ar y wefan. Roedd yn nodi y dylid darllen yr holl bapurau cyn y cyfarfod, er mwyn gwneud y gorau o'r amser sydd ar gael i drafod ar y diwrnod. Roedd y Bwrdd hefyd yn dilyn Gwerthoedd

Iechyd Cyhoeddus Cymru: Cydweithio, Gydag Ymddiriedaeth a Pharch, i Wneud Gwahaniaeth.

Tynnodd JW sylw at eitem newydd i'w nodi – crynodeb o'r materion hynny a ystyriwyd gan y Bwrdd mewn sesiwn breifat ar 25 Tachwedd 2021, yn unol â Phrotocol ffurfiol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer neilltuo materion i gyfarfod Bwrdd (neu Bwyllgor) Preifat. (Noder: Gellir gweld y Protocol drwy'r ddolen ganlynol: https://icc.gig.cymru/amdanom-ni/y-bwrdd-ar-tim-gweithredol/y-bwrdd-ar-tim-gweithredol/protocol-for-private-meetings/ )

**PHW 2/2022 Datgan Buddiannau**

Ni ddatganodd aelodau'r Bwrdd unrhyw fuddiannau yn ychwanegol at y rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datgan Buddiannau.

**PHW 3/2022 Addewid - Dim Goddefgarwch i Hiliaeth**

Cyflwynodd JW Hannah Lindsay a Sarah Morgan, a oedd yn ymuno â'r cyfarfod ar gyfer yr eitem bwysig hon ar yr agenda.

Crynhodd NL y cefndir i'r fenter hon; roedd Race Council Cymru wedi cynllunio Addewid ar-lein, i annog sefydliadau ac unigolion i ymrwymo i ddim goddefgarwch tuag at hiliaeth, ac i hyrwyddo cytgord hiliol a thegwch. Roedd y Rhwydwaith Staff BAME wedi gofyn i'r Bwrdd lofnodi'r Addewid ac roedd Cyfarwyddwyr y Bwrdd yn unfrydol o ran eu parodrwydd i wneud hynny, fel ffordd benodol o hyrwyddo Gwerthoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cadarnhaodd NL, yn dilyn llofnodi'r addewid ar ddiwedd y cyfarfod, y byddai gwaith monitro parhaus yn adeiladu ar y cwestiynau perthnasol a nodwyd eisoes yn arolygon staff GIG Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Diolchodd JW i bawb a fu'n ymwneud â'r gwaith hyd yn hyn, gan ddiolch yn benodol i aelodau'r Rhwydwaith Staff BAME am godi'r mater gyda'r Bwrdd. Gofynnodd i HL a SM gyfleu gwerthfawrogiad y Bwrdd iddynt; yna gwahoddodd JW sylwadau:

- Mynegodd MM ei ddiolch hefyd a chynigiodd y dylai fod rôl i'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl yn y broses fonitro; cefnogwyd y cynnig hwn gan gydweithwyr. Nododd NL hefyd y byddai cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl ym mis Chwefror 2022 yn ystyried dadansoddiad o arolwg ac y gallai hyn hefyd fod yn rhan o'r dull gweithredu parhaus.

**Camau gweithredu: MM/NL**

- Gofynnodd DC a allai arolwg staff Iechyd Cyhoeddus Cymru gynnwys cwestiynau i ddod â chanfyddiadau'r staff o ddiwylliant y sefydliad i'r golwg. Cadarnhaodd NL fod y ddau arolwg eisoes yn cynnwys y math hwn o gwestiwn; fodd bynnag, gallai arolwg staff Iechyd Cyhoeddus Cymru gynnwys cwestiynau ychwanegol.

HEB EU CADARNHAU

- Ychwanegodd TC ei diolch i HL, Shamala Govindasamy (cyd-gadeirydd arall y Rhwydwaith Staff BAME) ac SM am eu harweinyddiaeth yn y maes pwysig hwn o agenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd llofnodi'r Addewid yn ddatganiad cyhoeddus pwysig o ymrwymiad y Bwrdd.

**Cymeradwyodd** y Bwrdd y penderfyniad i lofnodi'r Addewid Dim Hiliaeth yn ddigidol a **chytunwyd** â'r Datganiad o Fwriad.

| **PHW 4/2022** | **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** |
|---|---|
| **PHW 4.1/2022** | **Adroddiad y Prif Weithredwr** |

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd TC sylw at y materion a ganlyn:

Pryder diweddar y cyhoedd ynghylch y newidiadau i'r rhaglen sgrinio serfigol. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi newidiadau i'r trefniadau sgrinio presennol yn gynnar ym mis Ionawr 2022, o ganlyniad i argymhelliad gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU, yn dilyn adolygiad yn seiliedig ar dystiolaeth ac ymgynghoriad ledled y DU yn 2019. Dywedodd TC fod yr Alban wedi rhoi'r newidiadau ar waith yn 2020.

Roedd cyhoeddi'r newidiadau yng Nghymru wedi ennyn cryn dipyn o sylwadau negyddol a phryder ymysg y cyhoedd, ac roedd cryfder a chwmpas yr ymateb yn annisgwyl. Ymddiheurodd TC am y pryder a achoswyd a chadarnhaodd y bwriad i gynnal 'ôl-drafodaeth' gynhwysfawr, i nodi'r holl wersi ac i sicrhau gwelliannau ar draws prosesau newid gwasanaeth o'r math hwn. Byddai hyn yn cynnwys ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, cyrff perthnasol yn y trydydd sector a rhanddeiliaid eraill cyn gwneud unrhyw gyhoeddiadau, adolygu'r dulliau cyfathrebu, yn enwedig o ran llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, a gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, o ystyried bod y penderfyniad yn perthyn ar lefel y llywodraeth, yn dilyn cyngor gan Bwyllgor Sgrinio Cymru.

Diolchodd JW i TC am y wybodaeth ddiweddaraf ac yna gwahoddodd gwestiynau:

Mynegodd MM ei ofid hefyd ynghylch y ffordd yr oedd stori newyddion da wedi troi'n fater mor ddadleuol. Argymhellodd y dylid gweithio'n agos â'r cyrff hynny yn y trydydd sector, y gallai eu cysylltiadau â defnyddwyr gwasanaethau gynorthwyo i fframio cyfathrebu priodol yn y dyfodol.

Croesawodd JR hefyd yr angen i ymgysylltu'n agosach â sefydliadau'r trydydd sector fel un o'r gwersi allweddol. Pwysleisiodd barodrwydd elusennau perthnasol i weithio'n agos ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i optimeiddio negeseuon cyhoeddus.

Awgrymodd DE y dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru geisio adeiladu ar ymwybyddiaeth gynyddol y cyhoedd o faterion iechyd ac iechyd y cyhoedd; roedd ymgysylltu â'r trydydd sector yn bwysig o ran y gwaith hwn.

HEB EU CADARNHAU

Dywedodd KE fod yr agenda ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ym mis Chwefror 2022 yn cynnwys eitem yn canolbwyntio ar ffyrdd newydd o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid; byddai hyn yn mynd i'r afael â'r gwersi o'r pandemig a'r newidiadau i sgrinio serfigol.

Nododd RBW y cyfle sefydliadol cyffrous i weithio'n rhagweithiol â'r trydydd sector a chyda defnyddwyr gwasanaethau. Dywedodd hefyd fod gwaith ar y gweill o ran y ffordd orau o dargedu negeseuon iechyd y cyhoedd ar gyfer plant a phobl ifanc.

Croesawodd JW y bwriad i gynnal 'Ôl-drafodaeth' gynhwysfawr a gofynnodd i TC roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd wrth i'r gwaith ddatblygu.

**Camau gweithredu: TC/HB**

Tynnodd TC sylw at y rhaglen o gyfarfodydd â Gweinidogion a Chadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd a thynnodd sylw at y cyflwyniadau ysgrifenedig a ddarparwyd fel rhan o'r broses ymgysylltu.

Mewn ymateb i agwedd arall ar adroddiad TC, croesawodd SG y gydnabyddiaeth a roddwyd i rôl a phroffil Iechyd Cyhoeddus Cymru yn fyd-eang ac ar draws cyfandir Ewrop; cyfeiriodd yn benodol at enw da haeddiannol byd-eang yr Uned Genomeg Pathogenau (PenGu).

Gofynnodd SG hefyd am y posibilrwydd o ddull gweithredu ledled y DU at wella/anghydraddoldebau/gwahaniaethau iechyd, i adlewyrchu'r hyn a sefydlwyd ar gyfer diogelu a gwyliadwriaeth iechyd yn dilyn lansio Asiantaeth Diogelu Iechyd y DU.

Soniodd TC am gyfraniad sylweddol Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r agenda iechyd cyhoeddus byd-eang, gyda'r posibilrwydd o gyfleoedd pellach ar gyfer ymchwil ac arloesi. Roedd yn disgwyl i'r Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau yn Lloegr ymgysylltu â chyrff partner yn y DU yn 2022/23, ar ddiwedd y cyfnod sefydlu.

Yna gofynnodd TC i IB roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ymgysylltiad Iechyd Cyhoeddus Cymru â threial cyffuriau gwrthfeirysol. Nododd IB y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r treial hwn i symud tuag at ddatblygu mwy o dreialon cyflym yn y dyfodol. Ychwanegodd SG y byddai'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd yn archwilio'r mater hwn ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd llawn.

**Camau gweithredu: SG/IB**

**Derbyniodd** y Bwrdd yr adroddiad a **chymerodd sicrwydd** o'r diweddariadau a ddarparwyd.

| **PHW 4.2/2022** | **COVID-19 gan gynnwys Ymateb y Gaeaf (yn cynnwys risg strategol)** |
|---|---|

HEB EU CADARNHAU

Rhoddodd MK ddiweddariad o ran sefyllfa COVID-19, gan gynnwys y wybodaeth risg strategol sy'n berthnasol i'r ymateb parhaus i'r pandemig a phwysau eraill y gaeaf. Defnyddiodd gyflwyniad ar ffurf sleidiau i ddangos:

- y gostyngiad parhaus mewn cyfraddau digwyddedd 7 diwrnod;
- y gostyngiad mewn cyfraddau positifrwydd, sef 34% ar hyn o bryd;
- y ffaith mai Omicron oedd yr amrywiolyn amlycaf o hyd, nid Delta; Delta oedd wedi bod yn flaenllaw yn 2021. Roedd Omicron bellach yn cyfrif am dros 95% o achosion;
- casgliadau rhai astudiaethau ar effeithiolrwydd brechlynnau a'r gostyngiad mewn lefelau imiwnedd dros amser;
- y gostyngiad o ran derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig â COVID-19, o gymharu â thonnau blaenorol;
- y ffaith bod nifer y marwolaethau o bob achos yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd;
- y cynnydd yn nifer yr achosion o COVID-19 a adroddir ymhlith plant ysgol, gyda chynnydd yn y grŵp oedran 0-16 yn gysylltiedig â'r ffaith nad oes llawer o'r grŵp oedran wedi'u brechu. Bu gostyngiad sydyn yn nifer yr achosion yn y grŵp oedran 17-49;
- anterth y gromlin epidemiolegol yn ystod cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd; gostyngodd hyn wedyn i'r lefelau presennol; er bod y newyddion hyn yn galonogol nid oedd yn bosibl rhagweld y sefyllfa yn yr wythnosau nesaf; serch hynny, y gobaith oedd y byddai'r lefelau'n parhau i ostwng;
- dosbarthiad tebyg o ran achosion ar draws byrddau iechyd;
- parhad brechu fel y mesur ataliol allweddol, gyda 91% o'r boblogaeth 12+ oed wedi cael dau ddos a 66% hefyd wedi cael y pigiad atgyfnerthu;
- bod dros 1.8m o ddosau atgyfnerthu wedi'u darparu; cyflymder brechiadau atgyfnerthu o fis Medi 2021 yn unol ag argymhellion y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) ar raglenni brechu;
- datblygu'r rhaglen frechu ymhellach, ar gyfer plant 5 oed a throsodd gyda ffactorau risg, yn dibynnu ar gyngor gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI);
- yr awgrym o'r dystiolaeth o ran yr amddiffyniad a geir drwy frechu y gallai fod angen brechu'n amlach nag unwaith y flwyddyn;
- defnydd ehangach o'r gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen frechu, gan gynnwys yr anghydraddoldebau sy'n amlwg yn y wybodaeth ddiweddaraf am frechu;
- symud i Lefel Rhybudd 0 yng Nghymru o 28 Ionawr; lleihau'r cyfnod hunanynysu i saith diwrnod. Byddai'r defnydd o orchuddion wyneb mewn ysgolion yn parhau tan hanner tymor y gwanwyn; yna byddai penderfyniadau o ran gwisgo gorchudd wyneb mewn ysgolion yn cael eu gwneud ar lefel leol;
- y ffocws parhaus ar atal, brechu a pharatoadau ar gyfer y newid o bandemig i endemig.

Atgoffodd MK y Bwrdd hefyd, er bod y baich mwyaf o ran clefydau heintus sy'n cylchredeg yn parhau i gael ei briodoli i COVID-19, bod heintiau anadlol eraill hefyd yn cael eu canfod, megis Rhinofeirws, sy'n achosi annwyd cyffredin. Dim ond ychydig o achosion a gofnodwyd o Ffliw A a Ffliw B ond yn ôl adroddiadau mae'r

HEB EU CADARNHAU

niferoedd yn cynyddu ar gyfandir Ewrop. Roedd pocedi bach o glystyrau ac achosion o dwbercwlosis yn parhau a chyfeiriodd MK at y sefyllfa barhaus yn Llwynhendy.

Yn olaf, nododd MK fod nifer fach o achosion gastroberfeddol yn parhau, yn ymwneud yn bennaf ag E.coli a Salmonela, gyda rheolaeth barhaus yn unol â phrotocolau hirsefydlog.

Manylodd NL ar elfennau'r gweithlu sy'n gysylltiedig â risg strategol 1: roedd yn rhaid i Iechyd Cyhoeddus Cymru gynnal gweithlu â'r sgiliau priodol. Nododd y camau sydd ar waith i wneud iawn am absenoldeb staff a chynnal cydnerthedd.

Diolchodd JW i MK ac NL am ddiweddariad manwl ac addysgiadol a gwahoddodd gwestiynau a sylwadau.

Croesawodd SG y wybodaeth ddiweddaraf a chymerodd sicrwydd o'r sylw a'r ffocws parhaus ar reoli COVID-19 yn ogystal â'r clefydau heintus eraill sy'n gyffredin yn ystod misoedd y gaeaf. Holodd a oedd angen brechiadau atgyfnerthu ddwywaith y flwyddyn. Dywedodd MK fod y dystiolaeth bresennol ar gyfer amrywiolyn Omicron yn dangos bod gwrthgyrff yn lleihau'n sylweddol 20 wythnos ar ôl y pigiad atgyfnerthu; yn dilyn hyn, roedd y dystiolaeth yn awgrymu imiwnedd isel iawn yn unig rhag haint symptomatig. Er ei bod yn llai tebygol i salwch difrifol achosi derbyniadau i'r ysbyty, roedd yn rhy gynnar i ffurfio barn bendant. Nododd SG hefyd y byddai goblygiadau o ran adnoddau o ganlyniad i ymestyn y brechiadau i blant.

Gofynnodd MM pam mae amrywolion newydd yn tueddu i ymddangos, dod i anterth a lleihau, gydag amrywolion newydd yn dod i'r amlwg wedi hynny; esboniodd MK fod hyn o ganlyniad i fwtaniadau feirws.

Croesawodd MM hefyd y ffaith bod data risgiau strategol yn cael eu cynnwys yn adroddiadau'r Bwrdd; nododd effeithiau'r pandemig ar wydnwch sefydliadol. Amlinellodd NL y gwaith sydd ar y gweill ar systemau a phrosesau i alluogi parhad busnes.

**Nododd** y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd drwy'r cyflwyniad a **chymerodd sicrwydd** o'r diweddariad.

**PHW 4.3/2022 Adroddiad Integredig ar Berfformiad (Mis 9)**

Wrth gyflwyno'r Adroddiad Integredig ar Berfformiad, tynnodd HG sylw at y manylion helaeth sydd bellach ar gael drwy'r Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad i gefnogi a llywio gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru. Byddai gwaith mireinio pellach yn dechrau yn y flwyddyn ariannol 2022/23 a byddai'n cynnwys rhai nodweddion ychwanegol sydd wedi'u hatal ar hyn o bryd. Yna gwahoddodd HG y Cyfarwyddwr Gweithredol i roi sylwadau ar bob adran.

<u>Cynnal gweithlu iach a chynaliadwy</u>

HEB EU CADARNHAU

Tynnodd NL sylw at y sefyllfa ym mis Rhagfyr 2021 o ran salwch ac absenoldeb; sef 3.4%, ac roedd hyn yn well na'r rhan fwyaf o 2021. Amlinellodd NL hefyd y gwaith sydd ar y gweill i adrodd ar ddata Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn systematig ar lefel Bwrdd a Swyddogion Gweithredol.

Croesawodd MM y lefelau isel o salwch/absenoldeb, a dywedodd fod hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y staff a, gobeithio, llwyddiant y rhaglen frechu.

Darparu gwerth ac effaith

Wrth gyflwyno'r sefyllfa ariannol, ystyriodd HG yr her o fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd rheoli'r sefyllfa refeniw yn cynnwys ymateb yn effeithiol i bandemig COVID-19 a defnyddio llithriant yn ystod y flwyddyn yn briodol; roedd angen ymdrech â ffocws ar draws y sefydliad. Roedd y sefyllfa gyfalaf yr un mor heriol ac amlinellodd HG y camau gweithredu sydd eu hangen i wario'r dyraniad cyfalaf erbyn 31 Mawrth 2022.

Nododd DE yr heriau sylweddol sydd ynghlwm â chyflawni balans ariannol ar gyfnod mor gythryblus. Roedd croeso i'r llif cyllid ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19, ond daeth â chymhlethdod ychwanegol yn ei sgil. Roedd yn cydnabod manteision symud adnoddau rhwng cyfarwyddiaethau a phenawdau cyllideb yn ystod y flwyddyn, ond gofynnodd a fyddai'r lefel hon o hyblygrwydd yn ofynnol yn 2022/23. Mewn ymateb, roedd HG yn rhagweld blwyddyn bontio arall, cyn dychwelyd at fwy o sefydlogrwydd cyllidebol wedi hynny. Nododd hefyd sefyllfa dynn GIG Cymru o ran cyfalaf dewisol ar gyfer 2022/23.

Ansawdd sefydliadol a mynediad at wasanaethau o ansawdd uchel

Tynnodd MK sylw at y materion canlynol:

- roedd gwaith yn mynd rhagddo i ddychwelyd gwasanaethau sgrinio i lefelau arferol, ond roedd problemau'n parhau o ran parodrwydd ar lefel system. Defnyddiodd y gwasanaeth sgrinio coluddion fel esiampl; dylai cleifion gael colonosgopi o fewn 4 wythnos o gael eu hatgyfeirio, ond nid oedd rhai byrddau iechyd yn cyflawni'r amserlen hon ac roedd trafodaethau'n parhau;
- bu rhywfaint o oedi o ran sgrinio'r fron ond roedd y sefyllfa'n parhau i wella;
- roedd sgrinio serfigol yn bwrw ymlaen â'r newid i raglen sgrinio pum mlynedd, yn amodol ar y drafodaeth gynharach, yn y cyfnod gweithredu;
- menter sydd ar y gweill i wella mynediad at sgrinio llygaid diabetig trwy reoli cleifion sy'n wynebu'r risg isaf trwy wasanaethau optometreg lleol, gan ryddhau capasiti yn y gwasanaeth sgrinio arferol ar gyfer y rhai sy'n wynebu risg uwch. Roedd yr arwyddion cynnar yn gadarnhaol, o ran lleihau'r ôl-groniad. Byddai nodi lleoliadau ychwanegol i wella hygyrchedd ymhellach hefyd o gymorth;
- Roedd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl arweinyddiaeth systemau mewn perthynas â Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd; roedd y metrigau yn yr adroddiad yn cyfeirio at berfformiad cyflawni byrddau iechyd.

HEB EU CADARNHAU

Croesawodd JR y cynnydd o ran lleihau ôl-groniadau a nodi dulliau newydd. Gofynnodd ai treial a allai ddod yn drefn barhaol oedd defnyddio optometryddion ar gyfer sgrinio llygaid diabetig risg isel. Cadarnhaodd MK y byddai hyn yn cael ei werthuso ac y byddai'r canlyniadau'n cael eu rhannu â'r Bwrdd.

**Camau gweithredu: MK**

Yna adroddodd RBW ar:

- y cynnydd o ran cau digwyddiadau hŷn;
- gweithredu system Datix ddiwygiedig yn fuan;
- y cofnod o 'ddim' ar gyfer digwyddiadau adroddadwy cenedlaethol yn ystod y cyfnod adrodd.

Nododd KE y broses olrhain sydd ar y gweill yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella i nodi'r amser a gymerir i gau digwyddiadau; roedd buddsoddiad ychwanegol yn y tîm wedi arwain at ostyngiad yn yr amser a gymerir.

Rhoddodd RBW ddiweddariad i'r Bwrdd hefyd ar y gwaith sydd ar y gweill i adolygu'r dull o ddatblygu risg strategol.

<u>Gwell iechyd a llesiant y boblogaeth</u>
Gan gyfeirio at Gynllun Gweithredol 2021/22, dywedodd HG fod y sefyllfa'n parhau i fod yn ffafriol, fel y nodwyd yn y papurau; roedd dull ariannu hyblyg ar draws y cyfarwyddiaethau wedi hwyluso hyn. Tynnodd sylw at y gwaith a drafodir ar dudalen 132 o'r adroddiad; roedd hyn yn deillio o waith a wnaed gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth i ystyried cerrig milltir a sicrhau bod gan y staff fynediad at adnoddau priodol i gyflawni'r canlyniadau gofynnol.

Tynnodd HG sylw'r Bwrdd hefyd at yr heriau allweddol yn ymwneud â'r pandemig; roedd y rhain yn parhau.

Gwahoddodd HG gwestiynau a sylwadau:

- Roedd DE o'r farn bod fformat yr adroddiad yn ddefnyddiol, roedd yn nodi'r sefyllfa o ran y defnydd o adnoddau a'r amgylchedd gweithredu heriol a oedd yn galw am gyllido ystwyth a hyblyg;
- Canmolodd TC y staff am eu hymateb rhagorol i heriau digynsail y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Yn gynharach yn y cyfarfod, roedd MM wedi gwneud sylw cadarnhaol ar gynnwys asesiadau risg strategol fel rhan o'r gwaith adrodd ar berfformiad. Holodd pam fod risg 2 yn wyrdd/ambr, o ystyried y diffyg cynnydd yn erbyn nifer o'r camau gweithredu. Nododd MB, perchennog y risg strategol, fod llawer o'r camau gweithredu ar y gweill; cytunodd i edrych ar y testun a ddarparwyd.

**Camau gweithredu: MB**

HEB EU CADARNHAU

**Ystyriodd** a chymerodd y Bwrdd **sicrwydd** o'r materion a drafodwyd a'r dogfennau ategol a ddarparwyd.

**PHW 4.4/2022 Egwyl**

**PHW 4.5/2022 Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau**

Gwahoddodd JW Gadeiryddion y Pwyllgorau i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion allweddol yn eu hadroddiad cyfansawdd.

<u>Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella</u>
Nododd KE, yn ogystal ag agenda arferol y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella, fod y cyfarfod diwethaf wedi cymryd sicrwydd ynghylch y Cynllun Ymateb dros y Gaeaf, gan gynnwys y gyfradd manteisio yn dilyn yr ymgyrch rhag y ffliw ar gyfer staff. Roedd y Pwyllgor hefyd yn ystyried sut orau i ddefnyddio'r Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad.

<u>Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd</u>
Roedd SG yn falch o nodi cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd a ailgynullwyd ym mis Rhagfyr 2021. Dywedodd y byddai'r cyfarfod nesaf yn ystyried datblygiad y strategaeth ymchwil ac yn diweddaru'r broses fapio. Roedd gan y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd agenda gyffrous ar gyfer y flwyddyn i ddod.

<u>Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol</u>
Rhoddodd DE grynodeb ar lafar o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2022. Nododd y pedwar adroddiad sylweddol gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol, ynghyd ag Adroddiad Asesu Strwythuredig Archwilio Cymru. Roedd yr asesiad olaf wedi darparu sicrwydd sylweddol ac wedi canmol arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Estynnodd JW wahoddiad i VW i roi sylwadau ar yr Adroddiad Asesu Strwythuredig. Soniodd VW am y ffordd roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ceisio gwella'n gyson ar asesiadau blaenorol; roedd yn ystyried bod y diwylliant o welliant parhaus yn ganmoladwy iawn, yn enwedig o ystyried yr amgylchiadau heriol. Diolchodd JW i VW am ei dull adeiladol ac am ei pharodrwydd i roi cyngor ac arweiniad drwy gydol y flwyddyn. Canmolodd JW bawb hefyd am y pedwar sgôr archwilio mewnol sylweddol; roedd hyn yn gamp ryfeddol.

Dywedodd MM y byddai'r <u>Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl</u> yn cyfarfod nesaf ym mis Chwefror 2022, a byddai'n adrodd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth.

**Derbyniodd** y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf a **chymerodd sicrwydd** o'r wybodaeth a ddarparwyd.

**PHW 5/2022 Eitemau i'w Cymeradwyo**

HEB EU CADARNHAU

| **PHW 5.1/2022** | **Cofnodion a Chofnod o Gamau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd (25 Tachwedd 2021)** |
|---|---|
| **Cymeradwyodd** y Bwrdd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a **nodwyd** y Cofnod o Gamau Gweithredu.<br><br>O ran y Cofnod o Gamau Gweithredu, nododd JW y cais i adolygu dau ddyddiad targed. Cadarnhaodd RBW a JB fod y diwygiadau arfaethedig, hyd at fis Mawrth 2022, yn gyraeddadwy, ac amlinellwyd y gwaith sydd ei angen.<br><br>**Nododd** y Bwrdd y cynnig i ddiwygio dau ddyddiad targed yn y Cofnod o Gamau Gweithredu a **chytunwyd** i ddiwygio'r dyddiadau hyn. | |
| **PHW 6/2022** | **Eitemau i'w Nodi** |
| Esboniodd JW gynnwys adroddiad newydd yn crynhoi trafodaethau'r Bwrdd mewn sesiwn breifat ym mis Tachwedd, 2021. Cyfeiriodd at y Protocol a grybwyllwyd ar ddechrau'r cyfarfod; roedd hwn yn rhoi arweiniad o ran y pynciau sy'n briodol i'w trafod mewn sesiwn breifat; er mwyn cynyddu tryloywder, cadarnhaodd JW ei bwriad i ddarparu crynodeb o drafodaethau o'r fath ym mhob cyfarfod Bwrdd o hyn allan.<br><br>**Nododd** y Bwrdd yr adroddiad. | |
| **PHW 7/2022** | **Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd** |
| Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 31 Mawrth 2022. | |
| **PHW 8/2022** | **Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus** |
| Daeth y cyfarfod i ben am 12.10pm. | |

HEB EU CADARNHAU